Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Medi 2024, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Ms R. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 50. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Arweiniodd Caplan y Maer, y Tad Anthony Nnamah MSP, bawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Cyflwynwyd ymddiheuriaddau am absenoldeb gan y Cynghorwyr E. M. Chard a Ms J. L. McAlpine.

## 51. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn y Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 17 Gorffennaf 2024 - Cofnodion rhifau 35-49

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 17 Gorffennaf 2024 - Cofnodion rhifau 10-12

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 4 Medi 2024 - Cofnodion rhifau 13-15

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 4 Medi 2024 - Cofnodion rhifau 26-40

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd M. Blackwell a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a'u cadarnhau i'w gweithredu.*

## 52. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CANOLFAN GROESO'R RHYL AC AMGUEDDFA'R RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 45 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024, dywedodd y Maer nad oedd Mr Peter McDermott, Arweinydd Tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych, yn medru dod i'r cyfarfod heno, yn anffodus.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn aildrefnu cael y cyflwyniad gan Mr McDermott mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.*

## 53. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion digwyddiadau roedd hi a'r Diprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at 'Benwythnos Hwyl yr Haf' yn Theatr y Pafiliwn a bwyty 1891 a oedd yn nosweithiau gwych ac at Wledd Dyrchafael Mair yn Eglwys y Santes Fair, a oedd yn ddigwyddiad rhagorol.

Adroddodd y Dirprwy Faer y bu yn Sioe Ffasiynau Cynaliadwy Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel, a fwynhaodd yn fawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 54. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1897 | Barry Hamilton | Lluniau sefydlu'r Maer – Cyfarfod Blynyddol mis Mai 2024 | 145.00 |
| 1898 | Swyddfa Archwilio Cymru | Gwaith ychwanegol (anfoneb hwyr iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru) | 2,040.00 |
| 1899 | Llewod Prestatyn a'r Rhyl | Dau docyn i Ginio Elusennol ar 19 Hydref 2024 | 56.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£2,241.00** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atodlen a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 55. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..…………………..